

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 50/2020

DYDDIAD CYHOEDDI 30/07/2020



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Arolwg Traciwr COVID-19 ar gyfer Defnyddwyr Twristiaeth y DU: adroddiad proffil Cymru 2020 (Wythnosau 5-8)

Gorffennaf 2020

ISBN Digidol **978-1-80038-761-4**

Hawlfraint y Goron

Adroddiad Ymchwil Llawn: Arolwg Traciwr COVID-19 U.K. ar gyfer Defnyddwyr Twristiaeth: adroddiad proffil Cymru 2020 (Wythnosau 5-8) 2020.

Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 50/2020.

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/arolwg-tracio-defnyddwyr-twristiaeth-covid-19-proffil-cymru-15-mehefin-i-10-gorffennaf-2020>

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd un Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Ymchwil a Mewnwelediad
Croeso Cymru,
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Canolfan QED
Ystâd Trefforest
Pontypridd
Rhondda Cynon Taf
CF37 5YR
E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

Cyflwyniad



Cyflwyniad

Mae VisitEngland, VisitScotland a Croeso Cymru (Llywodraeth Cymru) wedi comisiynu arolwg wythnosol Covid-19 i dracio barn defnyddwyr i ddeall bwriad domestig i gymryd gwyliau byr dros nos a gwyliau yn y DU a thramor, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhwystrau a'r pryderon sy'n ymwneud â theithio ar hyn o bryd a sut y bydd y rhain yn esblygu dros amser.

Mae'r arolwg yn rhoi sylw i: tebygolrwydd preswylwyr o'r DU yn teithio; pryd a ble y maent yn bwriadu mynd; manylion penodol trip fel mathau o lety a gweithgareddau a wneir a'r math o sicrwydd y maent yn chwilio amdano o'r sector.

Mae'r traciwr yn seiliedig ar sampl o 1,500 o oedolion 16+ oed cynrychioliadol genedlaethol 16+ oed, gyda hwb i drigolion yr Alban a Chymru i ddarparu samplau wythnosol cadarn. Ailadroddir yr arolwg dros gyfnod o 13 wythnos gyda'r wythnos gyntaf ar yr wythnos yn dechrau 18 Mai.

Seilir y canfyddiadau yn yr adroddiad hwn ar werth y data yn y pedair wythnos gyntaf. Mae hyn yn seiliedig ar waith maes sy'n digwydd yn ystod y dyddiadau canlynol:

- **15-19 Mehefin; 22-26 Mehefin; 29-3 Gorffennaf; 6-10 Gorffennaf**

Y diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (1)

Yn yr adroddiad hwn edrychwn ar broffiliau ac agweddau nifer o gynulleidfaoedd ar wahân:

Bwriadwyr yr haf: Aelodau'r cyhoedd sy'n datgan y bydd eu gwyliau neu wyliau byr nesaf yn y DU rhwng mis Mehefin a mis Medi eleni

Bwriadwyr y gaeaf: Aelodau'r cyhoedd sy'n datgan y bydd eu gwyliau neu wyliau byr nesaf yn y DU rhwng mis Hydref 2020 a mis Mawrth 2021

Wythnosau 1 i 4: Drwy gydol yr adroddiad, gwneir cymariaethau â'r adroddiadau a adlewyrchai bedair wythnos gyntaf yr ymchwil hwn. Roedd yr holiadur a'r sampl yr un peth â'r hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad hwn (wythnosau 5 i 8) ac mae'n adlewyrchu gwaith maes a gynhaliwyd rhwng 18 Mai a 12 Mehefin. Diben y gymhariaeth hon yw dangos sut mae bwriadau ac agweddau wedi newid dros amser, yn enwedig yn sgil codi'r cyfyngiadau yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Er mwyn cyflwyno proffiliau cliriach, rydym hefyd yn proffilio yn ôl cyfnod bywyd. Mae cyfnodau bywyd yn well nag 'oedran' gan eu bod yn disgrifio sefyllfa bywyd rhywun yn well. At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r canlynol:

Cyn-nythwyr: 16-34 oed heb blant yn y cartref

Teuluoedd: 16-64 oed gyda phlant yn y cartref

Annibynwyr hŷn: 35-64 oed heb blant yn y cartref

Oed ymddeol: 65+ oed.

Y diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (2)

Er mwyn hwyluso'r dadansoddi defnyddir y diffiniadau llety canlynol:

Gwesty/Motél/Tafarndy

Tŷ llety/Gwely a Brecwast/Ffermdy

hunanddarpar masnachol: Fflat/Gwesty fflatiau gwyliau rhent neu gartref gwyliau rhent

Cartref preifat: Ail gartref/timeshare neu gartref ffrind/perthynas neu yng nghartref preifat rhywun arall ar Sylfaen fasnachol (e.e. Airbnb)

Carafán/Gwersylla/Glampio: Carafán Deithiol neu Gerbyd Gwersylla/Cartref Modur neu Garafán Sefydlog neu Babell neu Glampio/Amgen

Llety arall: Hostel neu fath arall o lety

Er mwyn galluogi dadansoddi gyda meintiau sylfaen cadarn, mewn rhai lleoedd unwyd y mathau o gyrchfannau fel a ganlyn:

- **Cyrchfannau gwledig Cymru:** Cefn gwlad neu bentref + mynyddoedd neu fryniau
- **Cyrchfannau glan môr Cymru:** Morlin gwledig + tref glan môr traddodiadol/arfordirol

Y diffiniadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (3)

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys pum segment agwedd a grëwyd i ddeall sut mae cynulleidfaoedd yn gwahaniaethu o ran eu hagwedd at COVID-19. Caiff y rhain eu diffinio isod:

- **Meudwyon Gwerthfawrogol Pryderus:** Yn bryderus am y feirws, sut yr ymdrinnir â'r sefyllfa ac ymddygiad cymdeithas, ond wedi gwerthfawrogi'r amser gartref. O'r herwydd, maent yn debygol o gymryd mwy o amser cyn ailgydio mewn ymddygiad 'normal'. 'Pryderon ynghylch dal y feirws' ac 'Nid yw'n gyfrifol i deithio' yw'r rhwystrau mwyaf rhag cymryd gwyliau haf neu wyliau byr yn y DU.
- **Dan Effaith COVID:** Mae'r segment hwn yn dioddef yn ariannol ac mae hefyd yn pryderu am oblygiadau iechyd parhaus y feirws ac effaith bosibl llacio'r cyfyngiadau symud. Y rhain sy'n cofnodi'r sgoriau hwyliau isaf o'r holl segmentau. 'Pryderon ynghylch dal COVID-19' yw'r rhwystr mwyaf rhag cymryd gwyliau haf yn y DU, a'r segment hwn sy'n fwyaf tebygol o nodi bod 'cyllid personol' yn rhwystr.
- **Gofalus oherwydd COVID:** Er eu bod yn poeni'n llai am effaith y pandemig arnynt yn bersonol, mae'r segment hwn yn ofni efallai nad ydym heibio'r gwaethaf a byddai'n well ganddynt gyfyngiadau symud hirach. Maent yn debygol o fod yn ofalus am eu hymddygiad eu hunain ar ôl y cyfyngiadau symud. Mynegai uchel ar 'nid yw'n gyfrifol i deithio' a 'chyfyngiadau ar deithio'.
- **Cefnogwyr Polisi Pragmatig:** Yn pryderu am effaith COVID-19, ond yn ymddiried ac yn cefnogi polisiâu'r awdurdodau ac mae'r rhan fwyaf yn credu bod y gwaethaf y tu ôl i ni. Yn fwyaf tebygol o ddweud bod 'pryderon ynghylch dal COVID-19' yn eu rhwystro rhag mynd ar dripiâu domestig. Mae cyfyngiadau ar deithio hefyd yn ffactor.
- **Mae Bywyd yn Mynd yn ei Flaen:** Yn awchu am ddiwedd y cyfyngiadau symud, nid yw'r segment hwn yn poeni am y risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19 ac maent yn cefnogi codi'r cyfyngiadau symud er mwyn diogelu'r economi ac ailgydio yn eu bywydau. 'Cyfleoedd i fwya/yfed allan' a 'llai o bethau i'w gwneud' yw'r prif rwystrau rhag trip yn y DU

Canfyddiadau allweddol



Canfyddiadau allweddol (1)

Newidiadau allweddol o'u cymharu ag ymchwil wythnosau 1 i 4

1. Mae lefelau cyfforddusrwydd gyda gweithgaredd hamdden 'bob dydd' wedi cynyddu'n sylweddol, yn arbennig o ran 'siopa yn eich canolfan siopa leol'
2. Mae'r hyder i gymryd gwyliau yn y DU neu wyliau byr ym mis Gorffennaf, Awst a Medi yn uwch nag yn wythnosau 1 i 4 ymhlith preswylwyr y DU a phreswylwyr Cymru
3. Bellach pryderon ynghylch dal COVID-19 a chyfleoedd i fwyta/yfed allan yw'r prif resymau dros ddiffyg hyder ynghylch cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU ymhlith preswylwyr y Deyrnas Unedig, gan ddisodli 'cyfyngiadau'r llywodraeth'
4. Mae preswylwyr y DU yn dal i fod yn debygol o gymryd llai o wyliau neu wyliau byr byr yn y DU nag arfer, ond yn llai felly nag yn wythnosau 1 i 4. Mae hyn amlycach ymhlith preswylwyr y DU na phreswylwyr Cymru, er bod mwy o preswylwyr Cymru bellach 'yn y farchnad' ar ôl newid o 'ddim yn gwybod' i 'byddaf yn cymryd tua'r un faint o dripiâu yn y DU'
5. Mae cyfran preswylwyr y DU sy'n bwriadu mynd ar wyliau domestig yn ystod yr haf eleni yn sylweddol uwch nag yn wythnosau 1 i 4, ac ychydig yn uwch ymhlith preswylwyr Cymru
6. Mae *archebion* gwyliau ymhlith bwriadwyr wedi cynyddu'n sylweddol, ond mae mwyafrif eto i'w harchebu
7. Mae'r gyfran o 'annibynwyr hŷn' sy'n bwriadu mynd ar drip i Gymru yr haf hwn wedi cynyddu, a chyn-nythwyr yn gostwng
8. Mae cyfran sylweddol uwch o fwriadwyr y gaeaf o'r DU yn nodi bod ganddynt lai o incwm, a'u hanner yn perthyn i raddau cymdeithasol AB
9. Mae'r bwriad i ymweld â 'thref arfordirol/glan môr draddodiadol' ar drip haf i Gymru yn sylweddol uwch (yn codi o 26% i 45%), ond mae tripiâu dinas neu dref fawr yn is. Mae'r newidiadau, yn rhannol, yn adlewyrchu'r symudiadau o ran cynrychiolaeth cyfnodau bywyd.
10. Mae gan bartïon sydd â 'phlant, wyrion neu wyresau neu oedolion ifanc gyda rhieni' gynrychiolaeth uwch mewn tripiâu haf i Gymru nag yn wythnosau 1 i 4
11. Bu cynnydd mawr o ran y bwriadwyr haf sy'n cynllunio 'llety carafanau/gwersylla'

Canfyddiadau allweddol (2)

Barn gyffredinol yn y farchnad gwyliau byr a gwyliau yn y DU

1. Adeg yr arolwg rhwng canol Mehefin a chanol Gorffennaf, mae pobl yn parhau'n ofalus ynghylch gwneud gweithgareddau hamdden ymhlith preswylwyr y DU a Chymru. Er bod mwyafrif yn ystyried eu bod yn gyffyrddus wrth 'fynd am dro mewn parc gwledig/llwybr lleol', dim ond lleiafrif sy'n teimlo'n gyffyrddus wrth wneud gweithgareddau megis 'siopa yn eich canolfan siopa leol', 'bwyta mewn bwyty' a 'theithio ar drafnidiaeth gyhoeddus'. Fodd bynnag, mae'r cyfforddusrwydd wrth wneud yr holl weithgareddau hyn yn sylweddol uwch nag yn wythnosau 1 i 4, sy'n arwydd cadarnhaol ar gyfer twristiaeth ddomestig.
2. Caiff agwedd ofalus ei hadlewyrchu hefyd mewn ymddygiadau wrth archebu gwyliau. Fel yn wythnosau 1 i 4, dim ond lleiafrif sy'n teimlo'n hyderus y gallant fynd ar wyliau neu wyliau byr yn y DU ym mis Gorffennaf neu fis Awst eleni, ac er bod eu hyder yn cynyddu ar gyfer teithiau ym mis Medi, mae'r gyfran sy'n hyderus yn parhau i fod yn llai na hanner. Wedi dweud hynny, mae hyder yn uwch na phan ofynnwyd yr un cwestiynau fis yn ôl.
3. Teuluoedd yw'r cyfnod bywyd mwyaf hyderus, wedyn cyn-nythwyr ac annibynwyr hŷn. Er mai oedran ymddeol yw'r lleiaf hyderus, mae tystiolaeth bod hyn yn newid. Y rhain oedd yr unig gyfnod bywyd i arddangos cynnydd cyson mewn hyder ar draws pob un o fisoedd yr haf.
4. Ymhlith preswylwyr y DU, y prif rwystrau i hyder wrth fynd ar dripiâu domestig bellach yw 'dal COVID-19' a 'llai o gyfleoedd i fwya/yfed' neu 'lai o bethau i'w gwneud/llefydd i ymweld â nhw'.
5. Fel yn wythnosau 1 i 4, mae preswylwyr y DU a Chymru yn rhagweld y byddant yn cymryd llai o dripiâu domestig eleni, er bod y bwriad net wedi cynyddu yn ystod y mis diwethaf.
6. Mae preswylwyr Cymru yn llawer llai hyderus ac yn fwy gofalus na phreswylwyr y DU, ac maent yn llawer mwy tebygol o ddweud mai cyfyngiadau'r llywodraeth yw'r prif reswm am hyn.
7. Mae 24% o breswylwyr y DU yn debygol o fynd ar wyliau haf DU eleni, sy'n sylweddol uwch nag yn ystod wythnosau 1 i 4, o'u cymharu â 18% o breswylwyr Cymru – cynnydd bychan – sy'n golygu bod y bwlch rhwng bwriadau preswylwyr yn y DU a Chymru wedi tyfu ymhellach.

Canfyddiadau allweddol (3)

Proffiliau Ymwelwyr a Thripiâu i Gymru

1. Ymhlith preswylwyr y DU sy'n bwriadu cael gwyliau domestig yr haf hwn (rhwng mis Gorffennaf a mis Medi), Cymru yw'r bumed gyrchfan fwyaf poblogaidd — de-orllewin Lloegr, yr Alban a gogledd-orllewin Lloegr yw'r tair uchaf. Mae'r bwriad i ymweld â Chymru a'r Alban wedi gostwng (er nad yn sylweddol) ers wythnosau 1 i 4, gan adlewyrchu, *efallai*, y cyfyngiadau teithio cynyddol yn yr ardaloedd hyn
2. Ymhlith preswylwyr Cymru sy'n cynllunio trip yr haf hwn, Cymru yw'r gyrchfan fwyaf poblogaidd ac wedyn de-orllewin Lloegr.
3. Mae preswylwyr Cymru, gorllewin Canolbarth Lloegr a gogledd-orllewin Lloegr yn fwyaf tebygol o gymryd gwyliau byr neu wyliau yng Nghymru yr haf hwn. Mae gan oddeutu 1 o bob 10 o ranbarthau poblog iawn de-ddwyrain Lloegr a Llundain ddiddordeb hefyd, er bod preswylwyr Llundain hefyd yn fwyaf tebygol o ystyried cyrchfannau eraill.
4. Mae tua thraean y bobl sy'n ystyried trip i Gymru hefyd yn ystyried mynd ar drip i rywle arall yn y DU. Yr Alban, de-orllewin Lloegr a Llundain yw'r tri phrif ddewis arall.
5. Mae Cymru yn debyg o ddenu amrywiaeth o fathau o ymwelwyr eleni. Teuluoedd yw'r cyfnod bywyd mwyaf ar gyfer tripiâu i Gymru yn ystod misoedd yr haf a'r gaeaf. Mae cyfran y bwriadwyr haf annibynnol hŷn wedi cynyddu, ac mae'n ymddangos bod y cynnydd hwn wedi dylanwadu ar y gyrchfan a'r math o lety.
6. Mae bwriadwyr yr haf i Gymru yn fwy tebygol o berthyn i'r segment agweddau 'mae bywyd yn mynd yn ei flaen' sy'n awgrymu y byddant yn agored i wneud amrywiaeth o weithgareddau ar eu trip.
7. Mae gogledd Cymru yn parhau'n boblogaidd i ymwelwyr â Chymru yn yr haf a'r gaeaf sy'n byw dros y ffin yn Lloegr, tra gorllewin Cymru yw'r ffefryn i ymwelwyr sy'n byw yng Nghymru.
8. Mae bwriadwyr Cymru'n bwriadu dod i Gymru am amrywiaeth o fathau o wyliau, a 'thref arfordirol/glan môr draddodiadol' yw'r dewis cyntaf o ddigon yr haf hwn. 'Cefn gwlad neu bentref' ac 'arfordir gwledig' yw'r ail a'r trydydd dewis. 'Mynyddoedd neu fryniau' yw'r pedwerydd ond maent yn uwch o lawer na thripiâu haf i'r DU ar y cyfan.
9. Mae tua 2 o bob 5 ymwelydd â Chymru yn yr haf yn debygol o deithio gyda phlentyn neu oedolyn ifanc. Mae 1 o bob 7 yn bwriadu ymweld ag aelodau eraill o'r teulu gan awgrymu y gallai tripiâu aml-genhedlaeth fod yn bosiblwydd.

Canfyddiadau allweddol (4)

Llety ac Archebu

1. Carafanio/gwersylla yw'r prif fath o lety ymhlith bwriadwyr yr haf i Gymru, sy'n gynydd o ran dewis ers wythnosau 1 i 4. 'Cartref preifat' yw'r ail ddewis o ran llety mwyaf ac wedyn 'hunan-arlwyio masnachol'. Wrth wraidd y cynnydd mewn carafanau/gwersylla mae 'carafannau sefydlog nad yw'r atebdydd yn berchen arnynt', sy'n awgrymu bod agor parciau carafannau wedi cael effaith ar y math o lety y mae pobl yn ei ddewis.
2. Mae ymwelwyr â Chymru yn yr haf a'r gaeaf yn fwyaf tebygol o archebu eu llety yn uniongyrchol gan ddarparwr, ond mae hyn yn fwy gwir fyth yn ystod misoedd yr haf. Asiant teithio ar-lein, gwefan aros mewn cartref a gwefan asiant teithio traddodiadol yw'r hoff gyfryngau nesaf. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio'n sylweddol yn ôl cyfnod bywyd, gan amlygu'r angen i ddarparwyr llety gynnig amrywiaeth o opsiynau archebu.
3. Mae 3 o bob 5 person sy'n bwriadu ymweld â Chymru yn yr haf yn disgwyl i'w trip fod yn ylliau 4+ noson o'u cymharu ag ychydig dros ddwy ran o bump sy'n disgwyl iddo fod yn ylliau byr. Mae Cymru ar fin creu mwy o deithiau 4+ noson yr haf hwn nag unrhyw ranbarth arall yn Llywodraeth y DU. Ym misoedd y gaeaf, disgwylir i'r rhan fwyaf o deithiau fod yn ylliau byr.

Canfyddiadau allweddol (5)

Gwariant Ymwelwyr

1. Y gwariant disgwyliedig ar gyfer tripiâu yng Nghymru yr haf hwn yw £670 y parti, sef ychydig yn is na chyfartaledd y DU (£676). Ar sail 'fesul noson', mae'r gwariant yn debygol o fod yn sylweddol is na chyfartaledd yn y DU, mae bwriadwyr Cymru'n fwy tebygol o aros am 4+ noson. Mae'r gwariant a ragwelir ar wyliau a gwyliau byr yng Nghymru yn uwch yn yr haf nag ym misoedd y gaeaf, gan adlewyrchu o bosibl lai o wyliau hirach a chyfran uchel o fwriadwyr y gaeaf sydd ag incwm is o ganlyniad i COVID-19.
2. Gall y gwariant a ragwelir fod ychydig yn is o'i gymharu â rhanbarthau eraill y DU gan adlewyrchu'r bwriad i ymweld â chyrchfannau gwledig a glan môr, y defnydd o gartrefi preifat a charafanau a gwersylla, gyda Chymru'n cynnig opsiwn cymharol fforddiadwy i lawer o deithwyr sy'n ymwybodol o'u cyllideb.
3. O'i gymharu ag wythnosau 1 i 4, mae mwy o achosion o fwriadwyr yr haf sy'n dweud bod 'pethau'n iawn ond mae'n rhaid i mi fod yn ofalus' yn ariannol (38% o'i gymharu â 34%) a llai sy'n dweud 'rwy'n well fy myd nag o'r blaen'. Mae cyfran uwch o fwriadwyr haf sy'n dweud bod ganddynt 'lai o incwm' (18% o'i gymharu â 13%).
4. Amcangyfrifir y bydd y gwariant ar dripiâu yn is yng Nghymru yn ystod y gaeaf, gan adlewyrchu, o bosibl, hyd byrrach y trip a'r gyfran uchel o fwriadwyr y gaeaf sydd ar 'incwm is'. Ynghyd â mwy o ofal ariannol ymhlith bwriadwyr haf, mae tripiâu sy'n cynnig gwerth da am arian yn debygol o apelio. Wedi dweud hynny, wrth i hyder gynyddu ymhlith oed ymddeol, nad yw 'cyllid personol' yn eu rhwystro rhag archebu trip domestig, mae potensial i apelio i'r gynulleidfa hon ar gyfraddau pris 'safonol'.


Proffilio'r farchnad gwylliau byr a gwylliau



Lefel cyfforddusrwydd yn ymgymryd â gweithgareddau gyda 'chyfartaledd cyfforddusrwydd'

- Mae preswylwyr Cymru yn teimlo'n llawer mwy cyfforddus wrth wneud 'gweithgareddau bob dydd' nag yn wythnosau 1 i 4 – a'r lefel cyfforddusrwydd' gyfartalog yn codi o 39% i 46%. Er bod cyfforddusrwydd wedi codi gyda'r holl weithgareddau, bu'r cynnydd mwyaf mewn 'siopa yn eich canolfan siopa leol' (sy'n codi o 35% i 48%)
- Ar y cyfan, mae preswylwyr y DU yn teimlo'n fwy cyfforddus na phreswylwyr Cymru, a hynny'n amlycaf mewn gweithgareddau dan do megis 'bwyta mewn bwyty' a 'theithio ar drafnidiaeth gyhoeddus'.

Ffigur 1. Lefel cyfforddusrwydd yn cynnal ystod o weithgareddau ar wahân ac wedi'u cyfuno, Ddim yn gyfforddus iawn a gweddol gyfforddus, Wythnosau 5 i 8, y DU a Chymru




VB11. Yn fras, pa mor gyfforddus neu anghyfforddus fydddech chi'n teimlo i wneud y canlynol yn ystod y mis nesaf?

Sylfaen: Holl breswylwyr o'r DU n=6,993; Holl breswylwyr o Gymru n=818

Hyder yn y gallu i gymryd gwylliau byr neu wyliau yn y DU

- Dim ond lleiafrif o breswylwyr Cymru fyddai'n teimlo'n hyderus mewn cymryd gwylliau yn y DU neu wyliau byr ym mis Gorffennaf, Awst neu Fedi eleni. Fodd bynnag, mae hyder ym mhob cyfnod amser yn sylweddol uwch nag yn wythnosau 1 i 4, yn enwedig Awst a Medi.
- Mae preswylwyr Cymru yn parhau'n llawer llai hyderus na phreswylwyr y DU, yn enwedig yn ystod misoedd tymor agos yr haf. Mae'r bwlch hyder ym mis Gorffennaf wedi tyfu ers wythnosau 1 i 4.

Ffigur 2. Hyder mewn cymryd gwylliau byr neu wyliau yn y DU ar draws ystod o fisoedd gwahanol, Canran net yn hyderus iawn a gweddol hyderus, Wythnosau 5 i 8, y DU a Chymru




CVB7a newydd. Hoffem i chi ddychmygu eich bod wedi archebu gwylliau neu wyliau byr yn y DU ym mhob un o'r chwe chfnod amser a restrir isod. Yng ngoleuni'r pandemig COVID-19 cyfredol, pa mor hyderus ydych chi y byddech chi'n gallu mynd ar y triapiau hyn? Sylfaen: Holl breswylwyr o'r DU n=6,993; Holl breswylwyr o Gymru n=818

Rhesymau dros beidio â theimlo'n hyderus yn cymryd triplau haf yn y DU

Mae'r rhesymau dros 'beidio â bod yn hyderus' ynghylch cymryd gwyliau domestig neu wyliau byr yn wahanol i breswylwyr Cymru a'r DU. Mae preswylwyr Cymru yn llawer mwy tebygol na phreswylwyr y DU o nodi 'cyfyngiadau ar deithio gan y llywodraeth', gan adlewyrchu, o bosibl, wahaniaethau amseru wrth ddileu cyfyngiadau symud. Mae preswylwyr Cymru hefyd yn fwy tebygol o sôn am 'bryderon ynghylch dal COVID-19' ac 'nad yw'n gyfrifol i deithio yn y cyfnod hwn'.

Ffigur 3. Rhesymau dros beidio â bod yn hyderus ynglŷn â theithio rhwng mis Gorffennaf a mis Medi, Canran, Wythnosau 5 i 8, y DU a Chymru




CVB8a. Pa rai o'r ffactorau canlynol sy'n cyfrannu at eich ymdeimlad o 'ddim yn hyderus iawn' neu 'ddim yn hyderus o gwbl' ynglŷn â chymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU rhwng mis Gorffennaf a mis Medi? Sylfaen: Holl breswylwyr o'r DU n=4133; Holl breswylwyr o Gymru n=504

Hyder i gymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU – yn ôl cyfnod bywyd

- O'i gymharu ag wythnosau 1 i 4, mae pob cyfnod bywyd yn arddangos lefelau uwch o hyder i gymryd triapiau ym mis Gorffennaf a mis Awst eleni.
- Teuluoedd sydd â'r hyder uchaf mewn cymryd triapiau haf, a chyn-nythwyr sydd fwyaf hyderus ym misoedd y gaeaf
- Mae annibynnwyr hŷn yn arddangos hyder tebyg (er ei fod fymryn yn is) mewn mynd ar driapiau i gyn-nythwyr, a hyder ar ei isaf ymhlith 'oed ymddeol'.
- Er mai'r rhain sydd isaf eu hyder, oed ymddeol yw'r unig gyfnod bywyd lle gwelir cynnydd cyson mewn hyder ar gyfer mis Gorffennaf, Awst a Medi.

Ffigur 4. Hyder mewn cymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU ar draws ystod o fisoedd gwahanol yn ôl cyfnod bywyd. Canran net hyderus iawn a gweddol hyderus, Wythnosau 5 i 8, y DU




CVB7a newydd. Hoffem i chi ddychmygu eich bod wedi archebu gwyliau neu wyliau byr yn y DU ym mhob un o'r chwe chynnod amser a restrir isod. Yng ngoleuni'r pandemig COVID-19 cyfredol, pa mor hyderus ydych chi y byddech chi'n gallu mynd ar y triapiau hyn?

Sylfaen: Cyn-nythwyr n=1618, Teuluoedd n=2131, Annibynnwyr hŷn n=2030, Nythwyr Gwag n=1214

Rhesymau dros beidio â theimlo'n hyderus am gymryd tripiâu yn y DU rhwng mis Gorffennaf a mis Medi – yn ôl cyfnod bywyd

- Mae amryw o resymau pam na fyddai gwahanol gyfnodau bywyd yn hyderus ynghylch mynd ar drip yn y DU rhwng mis Gorffennaf a mis Medi. Mae pryderon ynghylch dal COVID-19 yn rhwysr i bob cyfnod bywyd. Mae 'llai o bethau i'w gwneud/ymweld â nhw' a 'llai o gyfleoedd i fwyta/yfed allan' yn rhwysr nodedig i gyn-nythwyr a theuluoedd. Mae 'cyllid personol' hefyd yn rhwysr allweddol i'r ddau gyfnod bywyd hyn, gan awgrymu y bydd tripiâu sy'n cynnig gwerth da am arian yn bwysig. Rhywbeth i'w nodi yw mai 'oed ymddeol' yw'r grŵp lleiaf tebygol o ddweud bod 'cyllid personol' yn rhwysr rhag teithio, 'llai o gyfleoedd i fwyta/yfed allan' yw'r pwysicaf. Mae hyn yn awgrymu, wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi a'r sefyllfa economaidd ddod yn heriol, y gallai'r rhai sydd o oedran ymddeol gynnig y cyfle mwyaf am dwf i'r diwydiant twristiaeth

Ffigur 5. Rhesymau dros beidio â bod yn hyderus ynglŷn â theithio rhwng mis Gorffennaf a mis Medi yn ôl cyfnod bywyd, Canran Wythnosau 5 i 8, y DU




CVB8a. Pa rai o'r ffactorau canlynol sy'n cyfrannu at eich ymdeimlad o 'ddim yn hyderus iawn' neu 'ddim yn hyderus o gwbl' ynglŷn â chymryd gwyliau byr neu wyliau yn y DU rhwng mis Gorffennaf a mis Medi? Sylfaen: Holl breswylwyr o'r DU Sylfaen: U.K. Cyn-nythwyr n=1273, Teuluoedd n=1170, Annibynnwyr hŷn n=1188, Nythwyr Gwag n=722


Nifer y teithiau a ragwelwyd yn y DU eleni o'i gymharu â'r arferol

- Mae preswylwyr y DU a Chymru yn rhagweld 'gostyngiad net' yng ngwylliau byr a gwylliau yn y DU eleni. Ymhlith preswylwyr y DU, mae disgwyliadau wedi gwella ers wythnosau 1 i 4. Erbyn hyn mae ganddynt fwriad net o -22 yn fwy o wyliau byr (o'u gymharu â -28 yn wythnosau 1 i 4) a-26 ar gyfer gwylliau 4+ noson (-30 yn wythnosau 1 i 4).
- Mae'r ffigur net ymhlith preswylwyr Cymru yn parhau heb newid i raddau helaeth, er bod mwy bellach yn eu hystyried eu hunain 'yn y farchnad', gyda ' ddim yn gwybod ' yn trosi i 'tua'r un peth'.

Ffigur 6. Nifer gwylliau byr yn y DU (1-3 noson) dros weddill y flwyddyn hon o'i gymharu â'r arferol, Canran Wythnosau 5-8, y DU a Chymru



Ffigur 7. Nifer gwylliau yn y DU (4+ noson) dros weddill y flwyddyn hon o'i gymharu â'r arferol, Canran Wythnosau 5-8, y DU a Chymru




CVB1b. O'i gymharu â'r arferol, ydych chi'n debygol o gymryd mwy, llai neu tua'r un nifer o wyliau/wyliau byr yn y DU rhwng nawr a diwedd y flwyddyn Sylfaen: Holl breswylwyr o'r DU n=6,993; Holl breswylwyr o Gymru n=818


Nifer y triplau tramor a ragwelwyd eleni o'i gymharu â'r arferol

- Fel yn wythnosau 1 i 4, mae preswylwyr y DU a Chymru hefyd yn rhagweld gostyngiad net mawr mewn gwyliau byr a gwyliau *tramor* eleni. Mae'r gostyngiad net mewn triplau tramor yn llawer mwy na'r gostyngiad net mewn triplau a ragwelir yn y DU
- Yn yr un modd â theithiau domestig, mae cyfran sylweddol o breswylwyr Cymru wedi newid o fod yn 'ddim yn gwybod', er yn achos teithiau tramor y newid yw cymryd llai o driplau.

Ffigur 8. Nifer yr gwyliau byr DRAMOR (1-3 noson) dros weddill y flwyddyn hon o'i gymharu â'r arferol, Canran Wythnosau 5-8, y DU a Chymru



Ffigur 9. Nifer y gwyliau DRAMOR (4+ noson) dros weddill y flwyddyn hon o'i gymharu â'r arferol, Canran Wythnosau 5-8, y DU a Chymru




CVB1b. O'i gymharu â'r arferol, ydych chi'n debygol o gymryd mwy, llai neu tua'r un nifer o wyliau/wyliau byr yn y DU rhwng nawr a diwedd y flwyddyn

Sylfaen: Holl breswylwyr o'r DU n=6,993; Holl breswylwyr o Gymru n=818


Pryd y rhagwelir mynd ar wyliau byr neu wyliau nesaf yn y DU

- Mae 24% o breswylwyr y DU yn bwriadu cymryd gwyliau byr neu wyliau domestig yr haf hwn (rhwng mis Gorffennaf a mis Medi), sy'n uwch o lawer na'r gyfran a oedd yn bwriadu gwneud hynny yn wythnosau 1 i 4. Mae cyfran preswylwyr Cymru sy'n bwriadu cymryd gwyliau byr dros yr haf hefyd wedi cynyddu, er mai dim ond o fymryn, sy'n golygu bod bwlch o chwe phwynt canran erbyn hyn o'i gymharu â phoblogaeth ehangach y DU. Mae bwriadau ymhlith preswylwyr Cymru yn is nag unrhyw un o ranbarthau eraill llywodraeth y DU.
- Mae 19% o breswylwyr Cymru yn bwriadu cymryd eu gwyliau neu wyliau byr nesaf yn y DU y gaeaf hwn (rhwng Hydref 2020 a Mawrth 2021), sydd hefyd yn is na chyfran preswylwyr y DU sy'n bwriadu gwneud hynny.
- Mae preswylwyr Cymru yn llawer mwy tebygol na phreswylwyr y DU o ddweud 'ddim yn gwybod ond hoffwn wneud hynny' gan awgrymu bod potensial i gau'r bylchau hyn.

Ffigur 10. Pryd y rhagwelir MYND ar y trip nesaf yn y DU, Canran Wythnosau 5-8, y DU a Chymru



Ffigur 11. Cyfran bwriadwyr yr haf sy'n bwriadu mynd ar fwy nag un trip eleni, Canran Wythnosau 5-8, y DU




CVB2a. Wrth feddwl am y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf yn y DU rydych chi'n debygol o'u cymryd, pryd ydych chi'n debygol o gynllunio, archebu a mynd ar y trip hwn?

Sylfaen: Pob ymatebydd. Wythnosau 5-8 poblogaeth y DU n=6,993; Poblogaeth Cymru n=818


P'un a yw gwyliau neu wyliau byr yn y DU wedi'u cynllunio neu wedi'u harchebu

- Mae llai na thraean o breswylwyr y DU sy'n bwriadu mynd ar drip domestig yr haf hwn wedi archebu eu trip, felly mae cyfle mawr o hyd i gyrchfannau sicrhau archebion.
- Mae Bwriadwyr o Gymru yn llai tebygol na Bwriadwyr o'r DU o fod eisoes wedi trefnu eu gwyliau byr neu wyliau nesaf yn y DU yn ystod misoedd yr haf a'r gaeaf.

Ffigur 12. Cyfran y rhai sydd eisoes wedi cynllunio eu trip, Canran Wythnosau 5-8, y DU a Chymru



Ffigur 13. Cyfran y Bwriadwyr sydd eisoes wedi archebu eu trip, Canran Wythnosau 5-8, y DU a Chymru




CVB2a. Wrth feddwl am y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf yn y DU rydych chi'n debygol o'u cymryd, pryd ydych chi'n debygol o gynllunio, archebu a mynd ar y trip hwn? Sylfaen: Pob ymatebydd. Wythnosau 5-8 bwriadwyr yr haf y DU n = 1,598; Bwriadwyr haf cynhwysol i Gymru n = 184; Bwriadwyr y gaeaf i'r DU n = 1598; Bwriadwyr gaeaf cynhwysol i Gymru n = 133 *Sylwch: Cynhaliwyd yr ymchwiliad rhwng 18 Mai a 12 Gorffennaf felly mae'r ffigurau hyn yn debygol o fod yn dangynrychiolaeth o'r archebion cyfredol.

Lle cynllunnir aros ar drip *haf* nesaf yn y DU

- Mae 10% o fwriadwyr yr haf o'r DU yn bwriadu mynd i Gymru ar gyfer eu gwyliau byr neu wyliau nesaf yn y DU, sef y pumed rhanbarth mwyaf poblogaidd yn y DU. Fel yn wythnosau 1 i 4, de-orllewin Lloegr yw'r dewis cyntaf o hyd, ac wedyn yr Alban. Mae'r bwriad i ymweld â Chymru a'r Alban wedi gostwng (er nad yn sylweddol) ers wythnosau 1 i 4.
- Ymhlith preswylwyr Cymru, Cymru yw'r gyrchfan fwyaf poblogaidd, a 39% yn cynllunio mynd ar drip yno, sef cynnydd mawr o'i gymharu ag wythnosau 1 i 4 pan oedd 31% yn bwriadu gwneud hynny.

Ffigur 14. Lle cynllunnir aros ar drip dros nos nesaf yn y DU ar gyfer bwriadwyr yr haf, Canran Wythnosau 5-8, preswylwyr o'r DU a Chymru




CVB4a. Ble yn y DU ydych chi'n debygol o aros ar y trip nesaf hwn ym mis <>?
Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU rhwng bwriadwyr yr haf i'r DU n = 1,598,
Bwriadwyr yr haf sy'n breswylwyr o Gymru n = 151

Lle cynllunnir aros ar wylliau byr neu wylliau nesaf yn ystod y gaeaf yn y DU

- Mae'n 8% o fwriadwyr y gaeaf o'r DU yn debygol o aros yng Nghymru, gan olygu mai hi yw'r 7^{fed} gyrchfan fwyaf poblogaidd.
- Fel yn ystod misoedd yr haf, Cymru yw'r gyrchfan fwyaf poblogaidd ar gyfer y gaeaf i breswylwyr Cymru, ac wedyn unwaith eto de-orllewin Lloegr.

Ffigur 15. Lle cynllunnir aros dros nos nesaf yn y DU ar gyfer bwriadwyr y gaeaf, Canran, Wythnosau 5-8, y DU a Chymru



CVB4a. Ble yn y DU ydych chi'n debygol o aros ar y trip nesaf hwn ym mis <>?


Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU yn y gaeaf Bwriadwyr y Gaeaf n=1,442

Bwriadwyr y gaeaf sy'n Breswylwyr o Gymru n=148

Y cyrchfannau a ystyrir ymhlith Bwriadwyr o Gymru

- Mae tua thraean o fwriadwyr yr haf a'r gaeaf o Gymru hefyd yn ystyried cyrchfannau eraill y DU ar gyfer eu gwyliau byr domestig nesaf – yr Alban a de-orllewin Lloegr yw'r ddau brif ddewis arall. Gan fod y mwyafrif ohonynt heb drefnu eu triapiau eto, mae hyn yn amlygu'r angen i roi sicrwydd y bydd eu triapiau yn gallu mynd yn eu blaenau.
- Mae'n fwy tebygol y bydd y bwriadwyr sy'n debygol o newid cyrchfan yn 'gyn-nythwyr', 'annibynwyr hŷn' a phobl sy'n byw yn Llundain yn hytrach na bwriadwyr 'neilltuol'.

Ffigur 16. Yn ystyried Cymru a mannau eraill, Canran Wythnosau 5-8, y DU a Chymru



Tabl 1. Y 5 prif gyrchfam arall i fwriadwyr o Gymru

	Bwriadwyr yr Haf o Gymru	Bwriadwyr y Gaeaf o Gymru
Yr Alban	13%	14%
De-orllewin Lloegr	13%	19%
Llundain	8%	6%
Gorllewin Canolbarth Lloegr	8%	7%
Swydd Efrog	8%	4%


CVB4a. Ble yn y DU ydych chi'n debygol o aros ar y trip nesaf hwn ym mis <>?

Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU rhwng bwriadwyr yr haf i'r DU n = 1,598, Bwriadwyr yr haf sy'n breswylwyr o Gymru n = 151

Y bwriad i aros yng Nghymru yn ôl rhanbarth preswyl

- Fel yn wythnosau 1 i 4, preswylwyr Cymru, gorllewin Canolbarth Lloegr a gogledd-orllewin Lloegr yw'r rhai sy'n fwyaf tebygol o ystyried gwyliau haf neu wyliau byr yng Nghymru eleni. Mae tua 1 o bob 10 o breswylwyr ardaloedd poblog iawn megis de-ddwyrain Lloegr a Llundain hefyd yn ystyried trip haf i Gymru.
- Ym misoedd y gaeaf mae'r patrwm yn gymharol debyg

Ffigur 17. Cyfran y bwriadwyr sy'n cynllunio aros yng Nghymru ar wyliau neu wyliau byr nesaf yn y DU yn ôl rhanbarth preswyl, Canran Wythnosau 5-8, y DU a Chymru




CVB4b. Ble yn y DU ydych chi'n disgwyl aros ar y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf hyn? Ble rydych chi'n byw?

Sylfaen: Pob preswilydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yn y DU rhwng mis Gorffennaf a mis Medi/mis Hydref i fis Mawrth. Pob un n=1,453 preswilydd ym mhob rhanbarth De-orllewin Lloegr n=93/105; Yr Alban n=215/213; Cymru n=151/148; Gogledd-orllewin Lloegr n=165/128; Llundain n=105/216; Swydd Efrog a Humber n=132/125; De-ddwyrain Lloegr n=98/71; Gorllewin Canolbarth Lloegr n=145/115; Dwyrain Canolbarth Lloegr 103/79; *Meintiau sylfaen yn isel – i'w drin â gofal. Rhai rhanbarthau wedi'u heithrio oherwydd meintiau sylfaen isel


Demograffeg bwriadwyr o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol

- Fel yn wythnosau 1 i 4, teuluoedd yw'r cyfnod bywyd mwyaf ar gyfer triapiau i Gymru yn ystod misoedd yr haf a'r gaeaf. Yn debyg hefyd i wythnosau 1 i 4, mae mynegai oed ymddeol yn uchel iawn ymhlith y boblogaeth ar gyfer triapiau haf, ond yn isel ar gyfer triapiau gaeaf. Mae cynrychiolaeth bwriadwyr annibynnol hŷn yr haf wedi cynyddu ers wythnosau 1 i 4, ar draul cyn-nythwyr sydd wedi lleihau.
- Mae cyn-nythwyr yn ffynhonnell bwysicach o ran ymwelwyr posibl â Chymru yn ystod y gaeaf
- Yn debyg i wythnosau 1 i 4, graddau cymdeithasol C1C2 yw'r rhan fwyaf o fwriadwyr yr haf o Gymru, gan fynegeo'n uwch na phoblogaeth y DU, a bwriadwyr yr haf o'r DU. Yn ystod misoedd y gaeaf, graddau cymdeithasol AB yw dros draean bwriadwyr o Gymru, sy'n sylweddol uwch na'u cynrychiolaeth ym mhoblogaeth y DU.

Ffigur 18. Dadansoddiad o boblogaethau a bwriadwyr yn ôl cyfnod bywyd, Canran Wythnosau 5-8, y DU a Chymru



Ffigur 19. Dadansoddiad o boblogaethau a bwriadwyr yn ôl graddfa gymdeithasol, Canran Wythnosau 5-8, y DU a Chymru



Ffynhonnell: cwestiynau demograffig. Sylfaen: Pob ymatebydd. Poblogaeth y DU n=6993; Bwriadwyr yr haf cynhwysol i Gymru n=184; Bwriadwyr y gaeaf cynhwysol i Gymru n=133

Cyfnod bywyd a graddfa gymdeithasol gyfunol

- Yn arbennig, mae pob cyfnod bywyd C1C2 yn mynegeo'n uwch ymhlith bwriadwyr yr haf i Gymru nag ym mhoblogaeth y DU, er bod hyn amlycaf ymhlith teuluoedd ac oed ymddeol.
- Ym misoedd y gaeaf, cyn-nythwyr AB a theuluoedd AB sydd â'r gynrychiolaeth uchaf o'i chymharu â'r boblogaeth.

Tabl 1. Cyfnod bywyd a graddfa gymdeithasol gyfunol, Canran Wythnosau 5-8, y DU


	Poblogaeth y DU	Bwriadwyr yr haf i Gymru	Bwriadwyr y gaeaf i Gymru
Cyn-nythwyr – AB	4%	1%	8%
Cyn-nythwyr - C1C2	11%	12%	16%
Cyn-nythwyr – DE	5%	1%	4%
Teuluoedd – AB	10%	13%	18%
Teuluoedd - C1C2	15%	18%	11%
Teuluoedd – DE	3%	2%	3%
Annibynwyr hŷn – AB	6%	6%	5%
Annibynwyr hŷn - C1C2	19%	20%	16%
Annibynwyr hŷn – DE	6%	4%	4%
Nythwyr Gwag – AB	3%	3%	4%
Nythwyr Gwag - C1C2	7%	10%	7%
Nythwyr Gwag - DE	11%	9%	5%

Ffynhonnell: cwestiynau demograffig. Sylfaen: Pob ymatebydd. Poblogaeth y DU n=6993; Bwriadwyr yr haf cynhwysol i Gymru n=184; Bwriadwyr y gaeaf cynhwysol i Gymru n=133


Segmentau ariannol ac effaith ariannol COVID-19 ar fwriadwyr

- Mae effaith ariannol bwriadwyr i Gymru o ganlyniad i COVID-19 yn gymharol gyson â phrofiad poblogaeth y DU. Fodd bynnag, o'i gymharu ag wythnosau 1 i 4, mae nifer uwch o achosion o fwriadwyr yr haf sy'n dweud 'Mae pethau'n iawn ond mae'n rhaid i mi fod yn ofalus' (38% o'i gymharu â 34%) a llai sy'n dweud 'Rwy'n well fy mynd nag o'r blaen'. Yn unol â'r cynnydd hwn mewn gofal ariannol, mae cyfran uwch o fwriadwyr yr haf yn dweud eu bod ar 'incwm llai' (18% o'i gymharu â 13%).
- Bu cynnydd sylweddol yng nghyfran bwriadwyr y gaeaf o'r DU sy'n datgan eu bod ar incwm is (36% o'i gymharu ag 20% yn wythnosau 1 i 4), gan awgrymu efallai mai 'pryderon ariannol' yw un o'r rhesymau nad ydynt yn ymrwymo i daith haf eleni. Fodd bynnag, mae dros hanner y gynulleidfa hon yn perthyn i raddau cymdeithasol AB, sy'n awgrymu efallai nad oes ganddynt y cyllid i ariannu rhyw fath o drip ac mae'n bosibl nad 'tripiau cyllideb' yw'r dewis sydd orau ganddynt.

Ffigur 20. Dadansoddiad o bobl yn ôl segmentau ariannol, Canran Wythnosau 5-8, y DU a Chymru



Ffigur 21. Effaith cyflogaeth ar fwriadwyr, Canran Wythnosau 5-8, y DU a Chymru




C17. Pe bai'n rhaid i chi ddewis, pa un o'r datganiadau canlynol fyddai'n disgrifio'ch teimladau orau ar hyn o bryd? VB8b: Gan feddwl am eich gwaith a'ch amgylchiadau ariannol, pa un, os o gwbl, o'r canlynol sydd wedi digwydd i chi o ganlyniad i'r pandemig COVID-19? Sylfaen: Pob ymatebydd. Poblogaeth y DU n=6993; Poblogaeth Cymru n=818; Bwriadwyr y gaeaf cynhwysol i Gymru n=133

Segmentau agwedd (gweler y dudalen diffiniadau am ragor o wybodaeth)

- Mae'r segment agwedd 'mae bywyd yn mynd yn ei flaen' yn cynnwys 2 o bob 5 o fwriadwyr yr haf o Gymru, a thraean bwriadwyr y gaeaf o'r DU.
- Grwpiau 'cefnogwyr pragmatig' a 'gofalus oherwydd Covid' yw'r rhan fwyaf o'r ymwelwyr arfaethedig sy'n weddill â Chymru ac maent yn debygol o fod yn ofalus eu hymddygiadau o ran cymryd eu gwyliau.
- Nid yw'n syndod bod "gwerthfawrogwyr pryderus" ac "effaith COVID" yn llai tebygol o fwriadu mynd ar drip i Gymru

Ffigur 22. Dadansoddiad fesul cyfnod bywyd, Canran Wythnosau 5-8, y DU.




Ymddygiad at dripiâu



Lle cynllunnir aros yng Nghymru ar drip haf nesaf yng Nghymru

- Yn yr un modd ag yn wythnosau 1 i 4, mae rhai gwahaniaethau amlwg yn y mannau y mae preswylwyr Cymru a phobl ledled y DU yn bwriadu ymweld â nhw ar eu trip i Gymru.
- Eryri yw'r gyrchfan fwyaf poblogaidd i'r holl bwriadwyr yr haf o Gymru, ac wedyn Llandudno a Bae Colwyn, Ynys Môn, a Sir Benfro.
- Ymhlith preswylwyr Cymru sy'n cynllunio trip haf i Gymru, Sir Benfro yw'r gyrchfan fwyaf poblogaidd o bell ffordd, gan ddenu tua dwbl cyfran yr ymwelwyr o'i chymharu â'r gyrchfan fwyaf poblogaidd nesaf (Eryri).

Ffigur 23. Cyrchfan a gynlluniwyd ar gyfer trip haf nesaf bwriadwyr i Gymru, Canran Wythnosau 5-8, y DU a Chymru




CVB4b. Ble yng Nghymru ydych chi'n disgwyl aros ar y gwyliau nesaf neu'r gwyliau byr hwn?
Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru. Pob bwriadwr yr haf i Gymru n = 184;
Bwriadwyr yr haf sy'n breswylwyr o Gymru n = 60

Lle cynllunnir aros yng Nghymru ar drip gaeaf nesaf i Gymru

- Yn gyson ag wythnosau 1 i 4, Eryri hefyd yw'r gyrchfan fwyaf poblogaidd ar gyfer trip yn ystod misoedd y gaeaf. Caerdydd yw'r ail gyrchfan fwyaf poblogaidd (sy'n sylweddol uwch o ran poblogrwydd nag yn wythnosau 1 i 4) ac wedyn Llandudno a Bae Colwyn. Ymhlith preswylwyr Cymru, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yw'r ddwy gyrchfan fwyaf poblogaidd yn ystod y gaeaf.

Ffigur 24. Cyrchfan wedi'i gynllunio ar gyfer trip nesaf i Gymru ar gyfer bwriadwyr y gaeaf, Canran, Wythnosau 5-8, y DU a Chymru




CVB4b. Ble yng Nghymru ydych chi'n disgwyl aros ar y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf hwn?
Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru. Pob bwriadwr y gaeaf i Gymru n = 133;
Bwriadwyr y gaeaf sy'n breswylwyr o Gymru n = 48* Meintiau sylfaen yn fach – dylid eu trin yn ddangosol yn unig

Lle cynllunnir aros yng Nghymru yn ystod gwyliau haf neu aeaf nesaf yng Nghymru – yn ôl cyfnod bywyd

- Mae amrywiaethau mewn cyrchfannau y cynllunnir ymweld â nhw yng Nghymru gan wahanol grwpiau cyfnod bywyd.
- Mae cyn-nythwyr yn fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn bwriadu mynd i Eryri, Caerdydd a Bae Abertawe; teuluoedd yn fwyaf tebygol o ymweld ag Eryri a Sir Benfro; annibynnwyr hŷn - Eryri, Llandudno a Bae Colwyn a Sir Benfro; mae cyn-nythwyr yn fwyaf tebygol o ymweld â Llandudno a Bae Colwyn, Ynys Môn ac Eryri.

Ffigur 25. Cyrchfan cynlluniedig ar gyfer y daith nesaf i Gymru ar gyfer yr holl fwriadwyr yn ôl cam bywyd, Canran Wythnosau 5-8, y DU a Chymru, wedi'u graddio ar deuluoedd



CVB4b. Ble yng Nghymru ydych chi'n disgwyl aros ar y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf hwn?


Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis

Mawrth 2021 Cyn-nythwyr n = 73; Teuluoedd n = 113; Annibynnwyr Hŷn n = 87; Nythwyr Gwag n = 45

Lle cynllunnir aros yng Nghymru ar wyliau byr neu wyliau haf neu aeaf nesaf i Gymru – yn ôl rhanbarth preswyl

- Mae'r rhan o Gymru y mae ymwelwyr yn debygol o ymweld â hi yn adlewyrchu'n fras o ba ranbarth y maent yn dod. Mae'r rhai sy'n dod o ogledd-orllewin Lloegr yn fwyaf tebygol o ymweld â chyrchfannau yng ngogledd Cymru megis Llandudno a Bae Colwyn, Eryri, Ynys Môn a gogledd-ddwyrain Cymru.
- Mae'r bwriadwyr o orllewin Canolbarth Lloegr yn debygol o ymweld ag amrywiaeth o gyrchfannau ledled Cymru, gan adlewyrchu'r manau mynediad eang sydd ganddynt.
- Mae preswylwyr Llundain yn fwyaf tebygol o ymweld â Chaerdydd, er eu bod fel arall yn ymweld ag amrywiaeth o gyrchfannau yng ngogledd, de a gorllewin Cymru – a Bae Abertawe, Ceredigion, Eryri ac Ynys Môn ymhlith eu pedair cyrchfan fwyaf poblogaidd.

Ffigur 26. Cyrchfan cynlluniedig ar gyfer y daith nesaf i Gymru ar gyfer yr holl fwriadwyr yn ôl rhanbarthau allweddol, Canran Wythnosau 5-8, y DU a Chymru, wedi'u graddio ar Ogledd-orllewin Lloegr




CVB4b. Ble yng Nghymru ydych chi'n disgwyl aros ar y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf hwn?

Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Mawrth 2021 Gorllewin Canolbarth Lloegr n=40*; Gogledd-orllewin Lloegr n=44*; Llundain n=36*. *Meintiau Sylfaen yn fach iawn. I'w ddefnyddio'n ddangosol yn unig.


Y math o gyrchfan ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf yn y DU

- Mae ymwelwyr â Chymru yn ystod misoedd yr haf yn fwyaf tebygol o ymweld â 'phentref arfordirol/glan môr traddodiadol'. Yn 45%, mae'r gyfran sy'n rhagweld ymweld â'r math hwn o gyrchfan yn sylweddol uwch nag yn wythnosau 1 i 4 yr ymchwil pan oedd 26% yn bwriadu gwneud hynny.
- Mae cefn gwlad neu bentrefi, arfordir gwledig, a mynyddoedd a bryniau hefyd yn ddewisiadau poblogaidd ymhlith darpar ymwelwyr haf.
- Yn ystod misoedd y gaeaf, mae teithiau i 'gefn gwlad neu bentref' a dinasoedd neu drefi mawr yn gymharol fwy poblogaidd, er bod diddordeb hefyd mewn ardaloedd glan môr a mynyddig.
- Mae'r newidiadau yn y math o gyrchfan ar draws y ddau dymor yn deillio'n rhannol o'r newid yng nghyfansoddiad y cyfnod bywyd ymhlith bwriadwyr, yn enwedig cyfrannau cyfnewidiol annibynwyr hŷn a chyn-nythwyr o'u cymharu â'r don ymchwil ddiwethaf

Ffigur 27. Prif fath o gyrchfan ar gyfer bwriadwyr yr haf i Gymru, Canran Wythnosau 5-8, y DU



Ffigur 28. Prif fath o gyrchfan ar gyfer bwriadwyr y gaeaf i Gymru, Canran Wythnosau 5-8, y DU




CVB5a. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fathau o gyrchfan rydych chi'n debygol o aros ynddo yn ystod eich trip i'r DU orau? Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru. Bwriadwyr yr haf i Gymru'n unig n = 127; Bwriadwyr y gaeaf i Gymru'n unig n=83

Dadansoddiad cyfnod bywyd bwriadwyr i Gymru - yn ôl y math o gyrchfan

- Mae'r mathau o gyrchfannau y bwriedir ymweld â nhw yng Nghymru yn amrywio yn ôl cyfnod bywyd.
- Mae annibynnwyr hŷn yn fwyaf tebygol o ymweld â chyrchfannau glan môr/arfordirol a fydd, o ystyried y niferoedd uwch y cyfnod bywyd hwn ymhlith bwriadwyr yr haf, yn rhannol gyfrif am y cynnydd yn yr ymweliadau a fwriedir â chyrchfannau traddodiadol/arfordirol yr haf hwn.
- Mae'r cyfnod bywyd teuluol yn dangos diddordeb ym mhob math o gyrchfan, er ei bod yn bwysig nodi na fydd pawb yn teithio gyda'u plant. Dim ond 16% o ymwelwyr â 'dinasoedd a threfi', er enghraifft, sy'n debygol o ymweld â'u plant, er bod y cyfrannau'n gyson â'r cyfnod bywyd i gyrchfannau glan môr a gwledig (gweler sleid 41)
- Mae cyn-nythwyr yn fwy tebygol o fwriadu ymweld â dinasoedd neu drefi mawr Cymru.

Ffigur 29. Cyfnod bywyd bwriadwyr i Gymru yn ôl math o gyrchfan, Canran, Wythnosau 5-8, y DU




Cwestiynau demograffig a QVB5a. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fathau o gyrchfannau rydych chi'n debygol o aros ynddynt yn ystod eich taith yn y DU? Sylfaen: yr holl ymatebwyr sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru rhwng Gorffennaf 2020 a Mawrth 2021. Cyrchfannau glan môr Cymru (arfordir gwledig + tref glan môr/arfordirol draddodiadol) n = 176; Cyrchfannau gwledig Cymru (cefn gwlad neu bentref + mynyddoedd neu fryniau) n = 161; Dinasoedd neu drefi mawr Cymru n = 55 * Sylwch: meintiau sylfaen bach iawn – dylech eu trin yn ddangosol.

Graddfa gymdeithasol bwriadwyr i Gymru - yn ôl math o gyrchfan

- Yn gyson ag wythnosau 1 i 4, C1C2 sydd â'r gynrychiolaeth uchaf ar draws yr holl fathau o gyrchfannau, er mai gan AB y mae'r gynrychiolaeth uchaf yn ninasoedd a threfi mawr Cymru.
- Mae graddau cymdeithasol DE yn cyfrif am gyfran isel o'r rhai sy'n bwriadu ymweld ar draws yr holl fathau o gyrchfannau

Ffigur 30. Graddfa gymdeithasol bwriadwyr i Gymru fesul cyrchfan, Canran, Wythnosau 5-8, y DU




Cwestiynau demograffig a CVB5a. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fathau o gyrchfan rydych chi'n debygol o aros ynddo yn ystod eich trip i'r DU? Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Ngymru rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Mawrth 2021. Cyrchfannau glan môr Cymru (arfordir gwledig + glan môr traddodiadol/tref arfordirol) n=176; Cyrchfannau Gwledig Cymru (Cefn Gwlad neu bentref + mynyddoedd neu fryniau) n=161; Dinasoedd Cymru neu drefi mawr n=55 ** Sylwch: meintiau sylfaen bach iawn - dylech eu trin yn ddangosol.


Cyfansoddiad parti ymwelwyr ar gyfer gwyliau neu wyliau byr nesaf i Gymru

- Ar draws cyfnodau'r haf a'r gaeaf, mae'r parti'on sy'n ymweld yn fwyaf tebygol o deithio i Gymru gyda'u partner, ac wedyn plant/wyrion/oedolion ifanc gyda rhieni, a ffrindiau. Mae nifer plant/wyrion ac oedolion ifanc gyda rhieni yn uwch nag yn wythnosau 1 i 4. Mae nifer uchel y cyfuniadau amrywiol o ymwelwyr teulu yn awgrymu y gallai teithiau aml-genhedlaeth fod yn opsiwn ar gyfer y ddau gyfnod amser.
- Mae bron un o bob deg bwriadwr trip yn cynllunio teithio gyda anifail anwes.
- Mae teithio gyda ffrindiau yn cyfrif am gyfran lai o ymwelwyr sy'n bwriadu ymweld â Chymru, tra bo teithwyr unigol yn lleiafrif bach.

Ffigur 31. Mae Parti o ymwelwyr yn gwneud i tyny am fwriadwyr yr haf i Gymru, Canran, Wythnosau 5-8, y DU



Ffigur 32. Mae Parti o ymwelwyr yn gwneud i fyny am fwriadwyr y gaeaf i Gymru, Canran, Wythnosau 5-8, y DU



CVB4d. Gyda phwy ydych chi'n debygol o fod yn treulio'ch gwyliau?
Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru. Bwriadwyr yr haf i Gymru yn unig n = 127; Bwriadwyr y gaeaf i Gymru'n unig n=83 *Mae plentyn neu oedolion ifanc yn cynnwys ymatebwyr sy'n nodi 'plant', 'wyrion' a phobl ifanc 16-24 oed sy'n nodi y byddant yn teithio gyda'u rhieni.

Dadansoddiad o barti ymwelwyr i Gymru - yn ôl y math o gyrchfan

- Teithio i Gymru gyda phartner sydd â'r gynrychiolaeth uchaf ar draws cyrchfannau glan môr a gwledig, ac wedyn pobl sy'n teithio gyda phlant neu oedolion ifanc.
- Teithio gyda phlant neu oedolion ifanc sydd â'r gynrychiolaeth uchaf yng nghyrcfannau glan môr/arfordirol Cymru, yn yr modd ag aelodau eraill o'r teulu, gan awgrymu bod y math hwn o gyrchfan yn cynnig potensial ar gyfer teithiau aml-genhedlaeth.

Tabl 2. Parti o ymwelwyr yn ôl math o gyrchfan ar gyfer bwriadwyr i Gymru, Canran, Wythnosau 5-8, y DU


	Bwriadwyr i Gymru Gyfan	Cyrcfannau Glan môr/Arfordirol Cymru	Cyrcfannau Gwledig Cymru
Eich partner	59%	58%	53%
Plant neu oedolion ifanc (16-24 oed)	36%	39%	34%
Ffrind/iau	15%	15%	18%
Gyda rhieni oedolion hŷn	10%	11%	11%
Aelod arall o'r teulu	17%	22%	11%
Anifeiliaid	9%	4%	8%
Byddaf yn teithio ar fy mhen fy hun	2%	1%	4%
Arall	6%	6%	10%

CVB4d. Gyda phwy ydych chi'n debygol o fod yn treulio'ch gwyliau? CVB5a. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fathau o gyrchfan rydych chi'n debygol o aros ynddo yn ystod eich trip i'r DU? Cwestiynau demograffig a QVB5a. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'r prif fathau o gyrchfan rydych chi'n debygol o aros ynddynt yn ystod eich trip i'r DU orau? Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio ar gymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru yn unig rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Mawrth 2021. Cyrcfannau glan môr Cymru yn unig (arfordir gwledig + tref glan môr/arfordirol traddodiadol) n = 86; Cyrcfannau Gwledig Cymru (Cefn Gwlad neu bentref + mynyddoedd neu fryniau) n = 62; Dinasoedd Cymru neu drefi mawr nas dangosir oherwydd meintiau sylfaen bach.


Y math o lety ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf i Gymru

- Bu rhai symudiadau o ran dewis llety ymhlith bwriadwyr yr haf o'u gymharu ag wythnosau 1 i 4. Bellach, carafân/gwersylla yw'r math llety mwyaf poblogaidd ymhlith bwriadwyr yr haf, a ddewisir gan 41% o'i gymharu â 32% yn wythnosau 1 i 4. Bellach 'cartref preifat' yw'r ail fath o lety mwyaf poblogaidd.
- Yn ystod misoedd y gaeaf, mae mwy o alw am lety mewn gwesty, ond caiff amrywiaeth eang o fathau o lety ei hystyried, sy'n dangos bod bwriadwyr yn dal i gadw eu hopsiynau'n agored

Ffigur 33. Cynllunio llety ar gyfer aros ar drip dros nos nesaf yng Ngymru ar gyfer bwriadwyr yr haf, Canran, Wythnosau 5-8, y DU



Ffigur 34. Cynllunio llety ar gyfer aros ar drip dros nos nesaf yng Nghymru ar gyfer bwriadwyr y gaeaf, Canran, Wythnosau 5-8, y DU



CVB6a. Pa fath/au o lety ydych chi'n disgwyl y byddwch chi'n aros ynddo yn ystod eich trip i'r DU ym mis <>?



Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru. Bwriadwyr yr haf i Gymru yn unig n = 127; Bwriadwyr y gaeaf i Gymru yn unig n=83 Llety masnachol: Fflat/fflat gwyliau rhent neu gartref gwyliau wedi'i rentu Cartref preifat: Ail gartref/cyfran amser neu gartref ffrindiau/perthynas neu yng nghartref preifat rhywun arall ar Sylfaen fasnachol (e.e. Airbnb).

Y math o lety ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf yng Nghymru

- Caiff y cynnydd mewn 'carafán/gwersylla' ei yrru'n bennaf gan arosiadau 'carafannau sefydlog', yn enwedig y rhai sydd ar safleoedd carafannau/gwersylla (h.y. nad ydynt yn eiddo i'r atebdydd).
- O'r dewisiadau llety mewn cartrefi preifat, mae rhaniad cymharol gyfartal rhwng cartref ffrind neu berthynas a 'chartref rhywun arall ar sail fasnachol (e.e. Airbnb)' yn yr haf a'r gaeaf.

Ffigur 35. Math o lety gwersylla/carafanio y cynllunnir aros ynddo ar drip dros nos nesaf ar gyfer bwriadwyr i Gymru, Canran net Wythnosau 5-8 y DU

Ffigur 36. Math o lety cartref preifat y cynllunnir aros ynddo ar drip dros nos nesaf ar gyfer bwriadwyr i Gymru, Canran net Wythnosau 5-8 y DU



CVB6a. Pa fath/au o lety ydych chi'n disgwyl y byddwch chi'n aros ynddo yn ystod eich trip i'r DU ym mis <>?
Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru. Bwriadwyr yr haf i Gymru yn unig n = 127;
Bwriadwyr y gaeaf i Gymru yn unig n=83

Llety dewisol bwriadwyr i Gymru - yn ôl y math o gyrchfan

- Mae'r cynnydd mewn carafán/gwersylla i'w gael yn y dystiolaeth ynghylch cyrchfannau arfordirol a gwledig Cymru. Mae 'cartref preifat' yn fwy tebygol o fod y math o lety mwyaf poblogaidd mewn cyrchfannau gwledig.

Tabl 4. Math o lety yn ôl math o gyrchfan ar gyfer bwriadwyr i Gymru, Canran Wythnosau 5-8, y DU


	Bwriadwyr i Gymru gyfan	Cyrchfannau Glan môr/Arfordirol	Cyrchfannau Gwledig Cymru
Carafán/Gwersylla	41%	41%	47%
Cartref preifat	34%	21%	42%
Gwesty/motél/tafarndy	30%	26%	24%
Hunanddarpar masnachol	28%	17%	32%
Tŷ llety/Gwely a Brecwast/Ffermdy	20%	17%	19%
Arall	8%	2%	9%

CVB6a. Pa fath/au o lety ydych chi'n disgwyl y byddwch chi'n aros ynddo yn ystod eich trip i'r DU ym mis <>? A CVB5 Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fathau o gyrchfan rydych chi'n debygol o aros ynddo yn ystod eich trip i'r DU? Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Mawrth 2021. Cyrchfannau Glan môr Cymru (arfordir gwledig + tref glan môr/arfordirol traddodiadol) n = 86; Cyrchfannau Gwledig Cymru (Cefn Gwlad neu bentref + mynyddoedd neu fryniau) n = 562; Ni ddangosir Dinasoedd Cymru neu drefi mawr oherwydd meintiau sylfaen bach.

Hyd a ragwelir ar gyfer cyfnod gwyliau i Gymru fesul cyfnod amser

- Fel yn wythnosau 1 i 4, mae triapiau i Gymru yn ystod misoedd yr haf yn fwy tebygol na theithiau gaeaf i fod yn wyliau 4+ noson (58% o'i gymharu â 40%).
- Mae Cymru mewn sefyllfa i gynhyrchu mwy o deithiau 4+ noson nag unrhyw ranbarth arall yn llywodraeth y DU
- Yn ystod y gaeaf gwelir galw cryfach am wyliau byr yng Nghymru.

**Ffigur 37. Hyd y gwyliau neu'r gwyliau byr nesaf i Gymru fesul cyfnod amser
Canran, Wythnosau 5-8, y DU**



CVB3. Ydy'r trip nesaf hwn yn debygol o fod yn wyliau byr (1-3 noson) neu'n wyliau (4+ noson)?


Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru. Bwriadwyr yr haf i Gymru yn unig n = 127;

Bwriadwyr y gaeaf i Gymru'n unig n=83


Dadansoddiad o hyd trip - yn ôl cyfnod bywyd a graddfa gymdeithasol

- Mae'r rhai sy'n bwriadu mynd ar deithiau hirach i Gymru yn cynnwys cyfran uwch o oed ymddeol a graddfeydd cymdeithasol DE (dau grŵp sy'n gorgyffwrdd)
- Mae teuluoedd ac annibynnwyr hŷn yn bwriadu cymryd amrywiaeth o deithiau byrrach a hirach i Gymru
- Mae cyn-nythwyr yn fwy tebygol o fwriadu cymryd gwyliau byr yn yr haf yng Nghymru, sy'n adlewyrchu'n rhannol eu tuedd uwch i ddewis gwyliau dinas.

Ffigur 38. Dadansoddiad cyfnod bywyd bwriadwyr yr haf i Gymru yn ôl hyd trip, Canran, Wythnosau 5-8, y DU




Ffigur 39. Dadansoddiad graddfa gymdeithasol bwriadwyr yr haf i Gymru yn ôl hyd trip, Canran, Wythnosau 5-8, y DU



Hyd trip bwriadwyr – fesul math o gyrchfan

- Ar draws y flwyddyn gyfan, mae tripiâu i gyrchfannau arfordirol a gwledig Cymru fymryn yn fwy tebygol o fod ar gyfer gwyliau 4+ noson. Mae tripiâu sy'n cael eu cynllunio i ddinasoedd neu drefi mawr yng Nghymru yn llawer mwy tebygol o fod yn wyliau byr.

Ffigur 40. Hyd gwyliau neu wyliau byr haf nesaf i Gymru yn ôl math o gyrchfan Canran, Wythnosau 5-8, y DU




CVB3. Ydy'r trip nesaf hwn yn debygol o fod yn wyliau byr (1-3 noson) neu'n wyliau (4+ noson)? A CVB5 Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r prif fathau o gyrchfan rydych chi'n debygol o aros ynddo yn ystod eich trip i'r DU? Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Mawrth 2021. Cyrchfannau glan môr Cymru (arfordir gwledig + tref glan môr/arfordirol traddodiadol) n = 86; Cyrchfannau Gwledig Cymru (Cefn Gwlad neu bentref + mynyddoedd neu fryniau) n = 62;


Gwariant a ragwelir ar wyliau nesaf neu wyliau byr yn y DU a Chymru

- Mae bwriadwyr yr haf i Gymru yn disgwyl gwario £670 ar eu gwyliau neu wyliau byr, sy'n uwch na'r gwariant a nodwyd yn wythnosau 1 i 4, a dim ond fymryn yn is na chyfartaledd y DU (£676). O ystyried teithiau hirach ymwelwyr â Chymru o'u cymharu â'r DU yn ehangach, mae 'gwariant nos' yn debygol o fod yn sylweddol is yng Nghymru o'i gymharu â'r DU yn ehangach.
- Mae'r gwariant disgwyliedig ar wyliau yng Nghymru a gwyliau byr yn uwch yn yr haf nag ym misoedd y gaeaf, gan adlewyrchu, o bosibl, y ffaith fod llai o wyliau hirach yn y gaeaf a chyfran uchel o fwriadwyr y gaeaf yn nodi incwm is oherwydd COVID-19.

Ffigur 41. Gwariant disgwyliedig ar gyfer bwriadwyr yr haf i'r DU a Chymru, Canran, Wythnosau 5-8, y DU



Ffigur 42 . Gwariant cyfartalog disgwyliedig ar gyfer bwriadwyr yr haf i'r DU a Chymru, Cyfartaledd, Wythnosau 5-8 y DU



CVB6e. Tua faint ydych chi'n meddwl bydd cyfanswm cost y trip hwn?


Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru. Bwriadwyr yr haf i Gymru yn unig n = 127;

Bwriadwyr y gaeaf i Gymru'n unig n=83

Gwariant disgwylledig ar gyfer bwriadwyr i Gymru – fesul cyfnod bywyd*

- Mae teuluoedd yn debygol o gynhyrchu'r gwariant uchaf ar eu taith i Gymru, ac wedyn annibynwyr hŷn. Gyda'u niferoedd uwch ymhlith bwriadwyr yr haf o'i gymharu ag wythnosau 1 i 4, mae 'annibynwyr hŷn' yn ysgogi mwy o wariant ar gyfartaledd.

Ffigur 43. Gwariant disgwylledig ar gyfer trip i Gymru gan fwriadwyr fesul cyfnod bywyd, Cyfartaledd, Canran Wythnosau 5-8 y DU




CVB6e. Tua faint ydych chi'n meddwl bydd cyfanswm y trip hwn?
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru rhwng mis Gorffennaf a mis Mawrth. Bwriadwyr y Gaeaf n=79; Cyn-nythwyr n=46*, Teuluoedd n=61*; Annibynnwyr hŷn n=59*, Nythwyr Gwag n=27* *Sylwch ar feintiau sylfaen bach iawn, dylech eu trin yn ddangosol.

Sianel archebu ddewisol ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf i Gymru

- Mae bwriadwyr y gaeaf a'r haf i Gymru yn fwyaf tebygol o archebu'n uniongyrchol gan y darparwr llety, ac wedyn asiant teithio ar-lein (OTA) a 'gwefan aros mewn cartref'.
- Mae archebion uniongyrchol yn llawer mwy tebygol ymhlith bwriadwyr yr haf nag yn hon yr arolwg blaenorol, ac mae'n uwch i bobl sy'n bwriadu ymweld â Chymru yn yr haf nag yn y gaeaf, a allai adlewyrchu'r angen i wirio manylion yn uniongyrchol gyda'r perchennog a mwy o ddefnydd o lety carafán a hunanarlwyo yn ystod y cyfnod hwn.

Ffigur 44. Cyfrwng archebu llety ar gyfer bwriadwyr yr haf i Gymru, Canran net Wythnosau 5 i 8, y DU.




VB6d. Sut fydddech chi'n ddelfrydol yn archebu neu ydych chi eisoes wedi archebu'ch llety ar gyfer eich trip i'r DU
Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru. Bwriadwyr yr haf cynhwysol i Gymru n= 184;
Bwriadwyr y Gaeaf i Gymru yn unig n = 133

Dadansoddiad o'r sianel archebu ar gyfer trip i Gymru yn ôl cyfnod bywyd

- Mae cynrychiolaeth y sianelau archebu yn amrywio ymhlith cyfnodau bywyd – nythwyr gwag sy'n fwyaf tebygol o archebu llety yn uniongyrchol. Mae annibynnwyr hŷn hefyd yn fwy tebygol o archebu'n uniongyrchol, ond gan adlewyrchu ystod yr oeddrannau yn y cyfnod bywyd hwn hefyd yn archebu trwy gyfrwng sianeli eraill.
- Mynegai cyn-nythwyr sydd uchaf trwy asiantau OTA neu wefannau aros mewn cartrefi; teuluoedd yn uniongyrchol ac ymhlith gwefannau asiantau teithio traddodiadol.

Ffigur 45. Dadansoddiad cyfnod bywyd o sianel archebu bwriadwyr, Canran, Wythnosau 5-8, y DU




VB6d. Sut fydddech chi'n ddefnyddio'r sianel archebu neu ydych chi eisoes wedi archebu'ch llety ar gyfer eich trip i'r DU? Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n cynllunio cymryd gwyliau neu wyliau byr yng Nghymru Cyn-nythwyr n=72; Teuluoedd n=113; Annibynnwyr hŷn n=87; ; Nythwyr Gwag n=45


Prif ddull teithio ar gyfer gwyliau byr neu wyliau nesaf yng Nghymru

- Ar draws y ddau gyfnod amser, 'eich car eich hun' yw'r prif ddull teithio y bwriedir ei ddefnyddio ar deithiau i Gymru, ac wedyn ar drên.
- Mae'r trên yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio ar dripiâu y bwriedir eu gwneud yng Nghymru yn ystod y gaeaf, gan adlewyrchu, o bosibl, y gyfran uwch o deithiau a gynllunnir i ddinasoedd a threfi mawr.

Ffigur 46. Y 5 prif ddull teithio i gyrchfan ar gyfer trip rhwng mis Gorffennaf a mis Medi, Canran Wythnosau 5 i 8, y DU



Ffigur 47. Y 5 prif ddull teithio i gyrchfan ar gyfer taith rhwng mis Hydref a mis Mawrth, Canran Wythnosau 5 i 8, y DU




**Gweithgarwch
ymgysylltu cyn y
cyfyngiadau symud**



Bwriadau gweithgareddau hamdden cyffredinol wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu codi

- Mae pob cynulleidfa (ymwelwyr a phreswylwyr) yn disgwyl ymweld yn fwy â bwytai/caffis neu dafarnau sydd â seddau y tu allan wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu codi
- Mae pob cynulleidfa yn rhagweld llai o ymweliadau â bwytai/caffis/tafarndai, y sinema/theatr, gwyliau a chlybiau nos.

Ffigur 48. Lleoliadau adloniant a digwyddiadau a gweithgareddau mwyaf tebygol yr ymwelir â nhw/eu gwneud wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu codi, Net: 'mwy tebygol' minws 'llai tebygol' Wythnosau 5 i 8, y DU a Chymru




CVB9a/bB10a/b. Pa rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o leoedd/gweithgareddau yn y DU ydych chi'n fwy/llai tebygol na'r arfer o ymweld â nhw/gwneud wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi? Sylfaen: Pob ymatebydd. Poblogaeth y DU n = 6993; Poblogaeth Cymru n = 818; Bwriadwyr yr haf cynhwysol i Gymru n=184; Bwriadwyr y gaeaf cynhwysol i Gymru n = 133.

Bwriadau gweithgareddau hamdden cyffredinol wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu codi

Mae pob cynulleidfa (ymwelwyr a phreswylwyr) yn rhagweld mwy o ymweliadau ag atyniadau awyr agored wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu codi, yn enwedig gerddi a chestyll a safleoedd hanesyddol. Mae disgwyliad cyffredinol cynnal llai o ymweliadau ag atyniadau dan do, yn enwedig y rhai sydd mewn mannau bach (e.e. carchardai) neu sydd ag elfen ymarferol yn ganolog iddynt (e.e. parciau thema neu ganolfannau chwarae neu weithgareddau dan do)

Ffigur 49. Atyniadau ymwelwyr mwy tebygol neu lai tebygol yr ymwelir â nhw/eu gwneud wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu codi, Net: 'mwy tebygol' minws 'llai tebygol' Wythnosau 5 i 8, y DU a Chymru




CVB9a/bB10a/b. Pa rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o leoedd/gweithgareddau yn y DU ydych chi'n fwy/llai tebygol na'r arfer o ymweld â nhw/gwneud wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi? Sylfaen: Pob ymatebydd. Poblogaeth y DU n = 6993; Poblogaeth Cymru n = 818; Bwriadwyr yr haf cynhwysol i Gymru n=184; Bwriadwyr y gaeaf cynhwysol i Gymru n = 133.

Bwriadau gweithgareddau hamdden cyffredinol wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu codi

Mae pob cynulleidfya (ymwelwyr a phreswylwyr) yn fwy tebygol o ymweld â mannau awyr agored megis traethau, mynyddoedd neu fryniau/ardaloedd gwledig, a llwybrau cerdded/llwybrau arfordirol.

Mae pobl sy'n bwriadu ymweld â Chymru yn ystod yr haf yn fwy tebygol o fwriadu ymweld â'r mathau hyn o leoliad awyr agored.

Ffigur 50. Ardaloedd awyr agored mwy neu lai tebygol yr ymwelir â nhw wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu codi, Net: 'mwy tebygol' minws 'llai tebygol' Wythnosau 5 i 8, y DU a Chymru




CVB9a/bB10a/b. Pa rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o leoedd/gweithgareddau yn y DU ydych chi'n fwy/llai tebygol na'r arfer o ymweld â nhw/gwneud wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi? Sylfaen: Pob ymatebydd. Poblogaeth y DU n = 6993; Poblogaeth Cymru n = 818; Bwriadwyr yr haf cynhwysol i Gymru n=184; Bwriadwyr y gaeaf cynhwysol i Gymru n = 133.

Bwriadau gweithgareddau hamdden cyffredinol wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu codi

- Mae pob cynulleidfa yn rhagweld cynnydd net mawr yn y tebygolrwydd o fynd i gerdded/heicio ar ôl i'r cyfyngiadau symud ddod i ben
- Rhagwelir hefyd gynnydd yn y tebygolrwydd o wylïo bywyd gwyllt a beicio/beicio mynydd, gyda disgwyliadau uwch i wneud hyn ymhlith y rhai sy'n bwriadu ymweld â Chymru. Mae'n debygol y bydd gostyngiad net bach yn y disgwyl i ymgymryd â'r rhan fwyaf o weithgareddau awyr agored eraill, er bod bwriadwyr yr haf i Gymru fymryn yn fwy tebygol o fynd i nofio yn yr awyr agored

Ffigur 51. Lleoliadau adloniant a digwyddiadau a gweithgareddau mwyaf tebygol yr ymwelir â nhw/eu gwneud wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu codi, Net: 'mwy tebygol' minws 'llai tebygol' Wythnosau 5 I 8, y DU a Chymru



CVB9a/bB10a/b. Pa rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o leoedd/gweithgareddau yn y DU ydych chi'n fwy/llai tebygol na'r arfer o ymweld â nhw/gwneud wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi? Sylfaen: Pob ymatebydd. Poblogaeth y DU n = 6993; Poblogaeth Cymru n = 818; Bwriadwyr yr haf cynhwysol i Gymru n=184; Bwriadwyr y gaeaf cynhwysol i Gymru n = 133.

Bwriadau gweithgareddau hamdden cyffredinol wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu codi

- Yn gyffredinol, mae ymwelwyr haf a phreswylwyr ar hyn o bryd yn awgrymu bod disgwyliad is nag arfer i fynd i nofio dan do neu driniaethau iechyd a harddwch wrth i gyfyngiadau gael eu codi, gan adlewyrchu'r nerfusrwydd presennol ynghylch cyswllt personol agos
- Mae bwriadwyr y gaeaf yn nodi bwriad uwch net i gael 'triniaethau sba/harddwch/iechyd'

Ffigur 52. Lleoliadau adloniant a digwyddiadau a gweithgareddau mwyaf tebygol yr ymwelir â nhw/eu gwneud wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu codi, Net: 'mwy tebygol' minws 'llai tebygol' Wythnosau 5 i 8, y DU a Chymru

■ Preswylwyr o'r DU ■ Preswylwyr o Gymru ■ Bwriadwyr yr Haf i Gymru ■ Bwriadwyr y Gaeaf i Gymru



CVB9a/bB10a/b. Pa rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o leoedd/gweithgareddau yn y DU ydych chi'n fwy/llai tebygol na'r arfer o ymweld â nhw/gwneud wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi? Sylfaen: Pob ymatebydd. Poblogaeth y DU n = 6993; Poblogaeth Cymru n = 818; Bwriadwyr yr haf cynhwysol i Gymru n=184; Bwriadwyr y gaeaf cynhwysol i Gymru n = 133.

Methodoleg



Methodoleg

Seilir y canfyddiadau yn yr adroddiad hwn ar arolwg ar-lein wythnosol a gynhaliwyd ymysg sampl gynrychioliadol genedlaethol o boblogaeth y DU.

Mae'r sampl yn gynrychioliadol o oedolion yn y DU sy'n 16+ oed yn ôl rhyw, oedran, rhanbarth llywodraeth a graddfa gymdeithasol.

Yn y cam cyntaf, recriwtir a chyfwelir â sampl graidd o 1,500 cynrychiolwr cenedlaethol. Yna, rhoddir 'hwb' i'r sampl hwn yng Nghymru a'r Alban i sicrhau bod digon o feintiau sylfaen ar gyfer dadansoddi gwledydd ar wahân. Yna pwysolir y data i wneud y sampl yn gynrychioliadol o'r DU yn gyffredinol ac o fewn pob gwlad. Mae'r adroddiad hwn yn cydgrynhoi'r canlyniadau a gymerwyd o Wythnosau 5-8 o'r traciwr COVID-19 wythnosol i ddefnyddwyr.